**Adroddiad i'r:** **Pwyllgor Llywodraethu Corfforaethol**

**Dyddiad y Cyfarfod:** **25 Ionawr 2017**

**Aelod/Swyddog Arweiniol: Richard Weigh, Pennaeth Cyllid**

**Karen Evans, Pennaeth Addysg a Gwasanaethau Plant**

**Awdur yr Adroddiad:** **Richard Weigh, Pennaeth Cyllid / Ian Land, Rheolwr Cefnogi ac Adnoddau Addysg**

**Teitl:** **Adroddiad Rheoliadau Ariannol Ysgolion (diweddariad)**

---

## 1. Am beth mae'r adroddiad yn sôn?

1.1 Rhoi diweddariad ynglŷn â rheoliadau ariannol sydd ar draws ysgolion Sir Ddinbych.

## 2. Beth yw'r rheswm dros lunio'r adroddiad hwn?

2.1 Fel rhan o raglen gwaith i'r dyfodol Llywodraethu Corfforaethol, gofynnodd y Pwyllgor i adroddiad gael ei gyflwyno yn dangos statws rheoliadau ariannol mewn ysgolion a'r polisïau a fabwysiadwyd.

## 3. Beth yw'r Argymhellion?

3.1 Bod Aelodau yn ystyried y wybodaeth a ddarparwyd ac yn rhoi sylwadau yn unol â hynny.

## 4. Manylion yr adroddiad

### 4.1 Cefndir

4.1.1 Yn dilyn cyfarfod Llywodraethu Corfforaethol ar 15 Mehefin 2016, cyflwynwyd adroddiad ar ddiweddariadau arfaethedig i Reoliadau Ariannol yr Awdurdod ei hun. Fel rhan o'r trafodaethau hyn gofynnwyd cwestiwn ynglŷn â Rheoliadau Ariannol mewn ysgolion, a pha un a ydynt yn cyfeirio at Reoliadau Ariannol yr Awdurdod ei hun.

4.1.2 Cynhaliwyd arolwg yn ysgolion Sir Ddinbych ac mae'r canlyniadau yn Atodiad 1.

### 4.2 Canfyddiadau

4.2.1 Mae holl Ysgolion Sir Ddinbych yn gweithio o fewn y Cynllun ar gyfer Ariannu Ysgolion a ddangosir yn Atodiad 2. Mae Cynllun Sir Ddinbych ar gyfer Ariannu Ysgolion yn nodi'r berthynas ariannol rhwng yr Awdurdod a'r ysgolion a gynhelir y mae'n eu hariannu. Mae'r Cynllun yn cynnwys

gofynion sy'n ymwneud â rheolaeth ariannol a materion cysylltiol ac mae'n orfodol ar yr Awdurdod ac ysgolion.

4.2.2 Yn ogystal â'r Cynllun Ariannu Ysgolion, mae rhai clystyrau wedi datblygu a mabwysiadu eu rheoliadau ariannol eu hunain – dangosir isod ond nid yw wedi'i atodi yn yr adroddiad. Mae copïau ar gael ar gais.

| Clwstwr | Dogfen(nau) |
|---|---|
| Clwstwr y Rhyl | Llawlyfr Gweithdrefn a Chynllunio Ariannol (Gorffennaf 2011)<br>Polisi Pwrcasu Ysgolion<br>"Fframwaith cyfrifoldebau"<br>(dogfennau heb eu darparu) |
| Clwstwr Glan Clwyd | Llawlyfr Rheoliadau Ariannol |
| Clwstwr Rhuthun | Rheoliadau Ariannol Ysgol Brynhyfryd |
| Santes Ffraid | Llawlyfr Cyllid Ysgol |
| Ysgol y Bendigaid Edward Jones ac Ysgol Mair | Llywodraethu Rheolaeth Ariannol |

4.2.3 Ar gyfer clystyrau Llangollen, Dinbych a Phrestatyn, maent yn mabwysiadu Rheoliadau Ariannol yr Awdurdod ei hun.

4.2.4 Nodir fod gan bob clwstwr ei Reolwr Ariannol ei hun sy'n cydlynu ac yn darparu cyngor ac arweiniad i'r ysgolion ar holl faterion sy'n ymwneud â Chyllid. Mae'r Awdurdod hefyd yn cydweithio gyda'r Rheolwyr Cyllid hyn trwy gyfarfodydd rhwydweithio rheolaidd.

## 5. Sut mae'r penderfyniad yn cyfrannu at y Blaenoriaethau Corfforaethol?

5.1 Mae rheoliadau ariannol yn cyfrannu at gael trefniadau llywodraethu effeithiol mewn ysgolion.

## 6. Faint fydd hyn yn ei gostio a sut y bydd yn effeithio ar wasanaethau eraill?

6.1 Nid oes unrhyw oblygiadau cost yn gysylltiedig â'r adroddiad hwn.

## 7. Beth yw prif gasgliadau'r Asesiad o Effaith ar Les a gynhaliwyd ar y penderfyniad?

7.1 Mae'r adroddiad hwn er gwybodaeth yn unig, yn dilyn cwestiwn a ofynnwyd mewn cyfarfod blaenorol o'r Pwyllgor Llywodraethu Corfforaethol ac felly nid oes angen asesu effaith.

**8. Pa ymgynghoriadau a gynhaliwyd gyda'r Pwyllgorau Archwilio ac eraill?**

8.1 Ymgynghorwyd â'r ysgolion ac maent wedi darparu'r ymatebion sy'n ffurfio prif ran yr adroddiad.

**9. Datganiad y Prif Swyddog Cyllid**

9.1 Mae'r ymatebion a dderbyniwyd hyd yma yn cadarnhau bod ysgolion wedi mabwysiadu set o reoliadau. Yr ysgol sy'n penderfynu pa reoliadau sydd fwyaf priodol i'r ysgol eu mabwysiadu. Y pwynt pwysicaf yw bod set o reoliadau wedi eu mabwysiadu. Dylai ysgolion sicrhau bod eu rheoliadau yn cael eu hadolygu yn rheolaidd a bod staff a llywodraethwyr yn ymwybodol ohonynt.

**10. Pa risgiau sydd ac a oes unrhyw beth y gallwn ei wneud i'w lleihau?**

10.1 Nid yw'n berthnasol i'r adroddiad cyflwyno gwybodaeth hwn.

**11. Pŵer i wneud y Penderfyniad**

11.1 Mae'n ofynnol i awdurdodau lleol o dan Adran 151 Deddf Llywodraeth Leol 1972 wneud trefniadau ar gyfer gweinyddu eu materion ariannol yn briodol.